

Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol

18 Mai 2018

Mae'r hysbysiad preifatrwydd a ganlyn yn berthnasol i Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Datblygiad Sefydliadol. Mae'r gwasanaeth angen math penodol o wybodaeth i ddatblygu cais i weithio i ni ac, yn y gwaith, i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel cyflogwr ac i alluogi cael gwybodaeth monitro gweithlu.

Mae'r elfennau o'r gwasanaeth sy'n defnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu i ni yn cynnwys:

- Canolfan Gwasanaethau Adnoddau Dynol (gan gynnwys cyflogres)
- Adnoddau Dynol a chynghor a chefnogaeth proffesiynol Datblygiad Sefydliadol (gan gynnwys gwybodaeth rheoli gweithlu)
- Datblygu'r Gweithlu

Gwybodaeth a gasglwyd:

Recriwtio:

Os ydych chi'n gwneud cais am swydd gyda ni, neu wedi eich dewis fel ymgeisydd neu weithiwr, rydym yn casglu:

- Enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad Geni
- Manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost personol
- Gwybodaeth Cydraddoldeb
- Gwybodaeth am berthnasau
- Gwybodaeth addysg a hyfforddiant
- Cymwysterau
- Hanes gyrfa

Darperir yr wybodaeth hon gennych chi trwy'r broses o wneud cais.

Cesglir yr holl wybodaeth ar y ffurflen gais.

Cyflogaeth:

Fel gweithiwr, ac fel rhan o'r broses wirio cyn cyflogi, byddwn hefyd yn casglu:

- Gwybodaeth gofrestru, gwasanaeth datgelu a gwahardd a chorff rheoleiddio
- Gwybodaeth ariannol
- Gwybodaeth bersonol arall:
 - Perthynas Agosaf
 - Cydraddoldeb
 - Manylion Banc
 - Gwybodaeth Iechyd
 - Atgyfeiriad Iechyd Galwedigaethol/Gwybodaeth Asesu

- Gwybodaeth achos cyflogaeth perthnasol
- Elfennau eraill o wybodaeth gyflogaeth sydd ei hangen er mwyn cyflawni ein swyddogaeth fel y cyflogwr

Asiantaethau y gallem rannu'r wybodaeth gyda nhw:

Ymgeisydd:

- Yn fewnol, i bwrpasau recriwtio
- Gydag ymgynghorydd recriwtio allanol i gefnogi proses recriwtio a dethol (fel arfer ar gyfer swydd uwch)

Gweithiwr:

- Darparwyr Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol
- Cyrff cofrestredig a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Darparwr Cynllun Gwobrwyo
- Darparwr E-ddysgu
- Darparwyr cynllun pensiwn
- CThEM a BACS
- Partïon trydydd parti eraill ar gyfer didyniadau cyflog awdurdodedig

Pwrpas prosesu:

Ymgeisydd:

- Proses Recriwtio a Dethol

Gweithiwr:

- Cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol fel cyflogwr
- Pwrpasau cyflogi e.e. CThEM a BACS i bwrpasau cyflogaeth a threth, a didyniadau awdurdodedig eraill i drydydd parti dynodedig e.e. Undebau Llafur, budd-dal tai, cynlluniau iechyd.
- Darparwr Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol
 - Fel rhan o'r broses atgyfeirio ac fel rhan o'n gweithdrefnau cyflogi i alluogi cyngor a chymorth.
- Cyrff cofrestredig
 - Fel sy'n ofynnol gan reoliadau ac ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi yn ystod recriwtio.
- Darparwr Cynllun Gwobrwyo a darparwr e-ddysgu
 - I'ch galluogi i gael mynediad i'r system.
- Tîm Hyfforddi a Datblygu mewnol
 - Trefnu a chofnodi unrhyw ddarpariaeth o'r gwasanaethau hyn.